O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 116

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynlluniau Digonolrwydd Blynyddol) (Cymru) 2026

Gwnaed	*14 Medi 2026*
Yn dod i rym	*26 Hydref 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 116

The Local Authorities (Annual Sufficiency Plans) (Wales) Regulations 2026

Made	*14 September 2026*
Coming into force	*26 October 2026*

£8.90

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 116

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynlluniau Digonolrwydd Blynyddol) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adrannau 75A(2)(a) a (3)(f), a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Maent yn rhagnodi ffurf cynlluniau digonolrwydd blynyddol y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru eu llunio a'u cyhoeddi o dan adran 75A o Ddeddf 2014, a'r wybodaeth sydd i'w chynnwys ynddynt.

Diben cynlluniau digonolrwydd blynyddol yw cryfhau cynllunio strategol a thryloywder mewn perthynas â dyletswyddau awdurdodau lleol o dan adran 75(1) o Ddeddf 2014. Mae'r dyletswyddau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, ddigon o lety a ddarperir gan awdurdodau lleol neu ddarparwyr cofrestredig sy'n bodloni gofynion adran 6A(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, o fewn eu hardaloedd, neu'n agos iddynt, i ddiwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal.

Mae rheoliad 3 yn darparu bod rhaid llunio cynlluniau digonolrwydd blynyddol gan ddefnyddio templed a bennir ac a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

Mae rheoliad 4 a'r Atodlen yn rhagnodi'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys mewn cynllun digonolrwydd blynyddol, yn ychwanegol at yr wybodaeth sy'n ofynnol gan adran 75A(3) o Ddeddf 2014. Mae'r Atodlen yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r canlynol—

- proffil ac anghenion asesedig plant sy'n derbyn gofal y mae angen gofal a chymorth arnynt o fewn ardal yr awdurdod lleol,
- nifer y plant sy'n derbyn gofal,

- patrymau lleoli, gan gynnwys lleoliadau y tu allan i ardal yr awdurdod lleol a'r tu allan i Gymru,
- y defnydd o wasanaethau cartrefi plant, gwasanaethau maethu a gwasanaethau llety diogel,
- lleoli plant mewn mannau nad yw'r darparwr wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig mewn cysylltiad â hwy,
- nifer y plant sy'n ddarostyngedig i orchmynion amddifadu o ryddid,
- heriau a risgiau cyfredol i ddigonolrwydd, a rhagolwg ohonynt,
- argaeledd llety a darpariaeth leoli ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol,
- sefyllfa'r gweithlu o ran capasiti, gallu, recriwtio, cadw a chynllunio,
- ansawdd data a chyfyngiadau data, a
- chysoni cynlluniau digonolrwydd blynyddol â strategaethau a chynlluniau perthnasol eraill.

Mae'r Atodlen yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am anghenion plant a phobl ifanc, y galw diweddar a'r galw rhagamcanol am lety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, patrymau lleoli a'r ddarpariaeth sydd ar gael i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol yn cwmpasu'r ail flwyddyn flaenorol, y flwyddyn flaenorol berthnasol, a rhagolygon ar gyfer y dyfodol. Y flwyddyn flaenorol berthnasol yw'r flwyddyn ariannol cyn blwyddyn y cynllun, a'r ail flwyddyn flaenorol yw'r flwyddyn ariannol yn union cyn y flwyddyn flaenorol berthnasol. Mae'r Atodlen hefyd yn ei gwneud yn ofynnol darparu rhagolygon ar gyfer gweddill y flwyddyn flaenorol berthnasol ac ar gyfer blwyddyn y cynllun ei hun, ynghyd ag asesiadau naratif o risgiau i ddigonolrwydd, mesurau lliniaru arfaethedig, trefniadau ar gyfer y gweithlu, ansawdd data a'r galw yn y dyfodol.

Mae rheoliad 5 yn darparu na chaniateir defnyddio gwybodaeth a ddarperir gan awdurdod lleol wrth gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn mewn tystiolaeth yn erbyn unigolyn mewn achos troseddol. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth o dan y Rheoliadau hyn ac, wrth wneud hynny, gall unigolion fod yn rhan o'r gwaith o gasglu, coladu, gwirhau neu gyflenwi gwybodaeth sy'n ymwneud â materion a allai arwain at atebolrwydd troseddol. Bwriad y ddarpariaeth yw amddiffyn yr unigolion hynny rhag hunanargyhuddo.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar y wefan ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 116

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynlluniau Digonolrwydd Blynyddol) (Cymru) 2026

Gwnaed	*14 Medi 2026*
Yn dod i rym	*26 Hydref 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 75A(2)(a) a (3)(f), a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**).

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynlluniau Digonolrwydd Blynyddol) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 26 Hydref 2026.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "ail flwyddyn flaenorol" (*"second preceding year"*), mewn perthynas â chynllun digonolrwydd blynyddol, yw'r flwyddyn ariannol yn union cyn y flwyddyn flaenorol berthnasol;

ystyr "awdurdod lleol" (*"local authority"*) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "blwyddyn y cynllun" (*"the plan year"*), mewn perthynas â'r cynllun digonolrwydd blynyddol, yw'r flwyddyn ariannol y mae'r cynllun digonolrwydd blynyddol yn ymwneud â hi;

ystyr "blwyddyn flaenorol berthnasol" (*"relevant preceding year"*), mewn perthynas â chynllun digonolrwydd blynyddol, yw'r flwyddyn ariannol yn union cyn blwyddyn y cynllun;

ystyr "cynllun digonolrwydd blynyddol" (*"annual sufficiency plan"*) yw cynllun y mae'n ofynnol, gan adran 75A(1) o Ddeddf 2014, i awdurdod lleol ei lunio a'i gyhoeddi

(**1**) 2014 dccc 4. Mewnosodwyd adran 75A gan adran 11 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (dsc 1).

cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, sy'n nodi'r camau y bydd yn eu cymryd yn y flwyddyn honno yn unol â'i ddyletswydd o dan adran 75(1);

ystyr "Deddf 2014" (*"the 2014 Act"*) yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

ystyr "Deddf 2016" (*"the 2016 Act"*) yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**2**);

ystyr "gorchymyn amddifadu o ryddid" (*"deprivation of liberty order"*) yw gorchymyn llys, gan gynnwys gorchymyn interim, sy'n awdurdodi amddifadu plentyn sy'n derbyn gofal o'i ryddid, mewn cysylltiad â threfniadau a wneir ar gyfer gofalu am y plentyn, ei ddiogelu, ac ar gyfer ei les;

mae i "gwasanaeth cartref plant" (*"children's home service"*) yr ystyr a roddir yn adran 2A(2) o Ddeddf 2016(**3**);

ystyr "gwasanaeth llety diogel" (*"secure accommodation service"*) yw gwasanaeth llety diogel o fewn ystyr paragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 2016;

mae i "gwasanaeth maethu" (*"fostering service"*) yr ystyr a roddir ym mharagraff 5 o Atodlen 1 i Ddeddf 2016;

ystyr "gwasanaeth sy'n gweithredu heb gofrestru" (*"service operating without registration"*) yw man lle y mae gwasanaeth cartref plant neu wasanaeth llety diogel yn cael ei ddarparu ac nad yw'r darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth cartref plant na gwasanaeth llety diogel yn y man hwnnw;

ystyr "math o ddarparwr" (*"provider type"*) yw pa un a yw'r darparwr llety—

(a) yn awdurdod lleol;

(b) yn berson sy'n endid nid-er-elw o fewn ystyr adran 6A(2) o Ddeddf 2016(**4**);

(c) yn berson nad yw'n awdurdod lleol nac yn endid nid-er-elw o fewn ystyr adran 6A(2) o Ddeddf 2016;

ystyr "plentyn sy'n derbyn gofal" (*"looked after child"*) yw plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol o fewn ystyr adran 74 o Ddeddf 2014, ac mae cyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at blentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yn gyfeiriad at blentyn sy'n derbyn gofal sy'n cael gofal gan yr awdurdod hwnnw;

mae i "rhiant maeth awdurdod lleol" (*"local authority foster parent"*) yr ystyr a roddir yn adran 197(1) o Ddeddf 2014(**5**).

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriadau at blentyn yn cael ei leoli y tu allan i'r sir yn gyfeiriadau at blentyn yn cael ei leoli y tu allan i ardal yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriadau at blentyn yn cael ei leoli y tu allan i'r wlad yn gyfeiriadau at blentyn yn cael ei leoli y tu allan i Gymru.

(**2**) 2016 dccc 2.

(**3**) Mewnosodwyd adran 2A yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2) gan adran 2(b) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (dsc 1).

(**4**) Mewnosodwyd adran 6A yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2) gan adran 3(3) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (dsc 1).

(**5**) Diwygiwyd adran 197(1), er mwyn amnewid y diffiniad o "rhiant maeth awdurdod lleol", gan reoliad 319(a) o O.S. 2016/413 (Cy. 131). Mae'r amnewidiad yn cael effaith yn ddarostyngedig i ddarpariaethau arbed a darpariaethau trosiannol fel y'u pennir ym mharagraff 3 o'r Atodlen i'r offeryn hwnnw. Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

Ffurf cynllun digonolrwydd blynyddol

3.—(1) At ddibenion adran 75A(2)(a) o Ddeddf 2014, rhaid i gynllun digonolrwydd blynyddol gael ei lunio gan ddefnyddio'r templed a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru at ddiben cyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r templed ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn cynlluniau digonolrwydd blynyddol

4. Yn ychwanegol at yr wybodaeth sy'n ofynnol gan adran 75A(3) o Ddeddf 2014, at ddibenion adran 75A(3)(f)(**6**) o Ddeddf 2014, rhaid i gynllun digonolrwydd blynyddol gynnwys yr wybodaeth a bennir yn yr Atodlen.

Defnyddio gwybodaeth mewn achosion troseddol

5. Ni chaniateir defnyddio gwybodaeth a ddarperir gan awdurdod lleol wrth gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn mewn tystiolaeth yn erbyn unigolyn mewn achos troseddol.

Delyth Jewell
Y Dirprwy Weinidog dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd Meddwl ac Iechyd Menywod, o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Iechyd a Gofal, un o Weinidogion Cymru
14 Medi 2026

(**6**) Mae adran 75A(3)(a) ac (e) yn gwneud darpariaeth sy'n gosod gofynion ar gyfer gwybodaeth y mae rhaid ei chynnwys mewn cynllun digonolrwydd blynyddol. Mae adran 75A(3)(f) yn darparu bod rhaid i gynllun digonolrwydd blynyddol hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth arall a ragnodir drwy reoliadau.

YR ATODLEN *Rheoliad 4*

Yr wybodaeth ychwanegol sydd i'w chynnwys mewn cynllun digonolrwydd blynyddol

RHAN 1

Gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cyfnod cyn blwyddyn y cynllun

Proffil anghenion

1.—(1) Crynodeb ysgrifenedig o broffil anghenion plant sy'n derbyn gofal yn ardal yr awdurdod lleol, fel yr oedd ar 30 Medi yn y flwyddyn flaenorol berthnasol.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "proffil anghenion", mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal mewn ardal awdurdod lleol, yw crynodeb, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o nodweddion, amgylchiadau a gofynion cymorth plant a phobl ifanc yn yr ardal honno y mae angen gofal a chymorth arnynt.

(3) Rhaid i'r crynodeb ysgrifenedig sy'n ofynnol gan is-baragraff (1) gynnwys asesiad o'r canlynol—

(a) nodweddion demograffig a nodweddion poblogaeth y plant hynny, gan gynnwys oedran, iaith a nodweddion gwarchodedig;

(b) yr amgylchiadau a'r ffactorau sy'n gysylltiedig â hyglwyfedd y plant hynny neu pam y'u derbyniwyd i'r system ofal;

(c) anghenion y plant hynny o ran lleoliad a gofal;

(d) anghenion cymdeithasol a diwylliannol y plant hynny, a'u hanghenion o ran eu perthynas ag eraill;

(e) anghenion plant hŷn a phobl ifanc sy'n nesáu at fod yn oedolion;

(f) anghenion y plant hynny y mae arnynt angen pecynnau gofal integredig, gyda chydrannau addysg ac iechyd, neu ddatrysiadau ar ffurf pecynnau gofal cymhleth eraill;

(g) ffactorau lleol sy'n dylanwadu ar anghenion hysbys, a thueddiadau yn yr anghenion hynny.

(4) Yn ogystal â'r crynodeb ysgrifenedig sy'n ofynnol gan is-baragraff (1), asesiad o'r ymgysylltu rhwng yr awdurdod lleol a phlant a phobl ifanc er mwyn canfod beth yw eu dymuniadau a'u teimladau at ddibenion penderfynu beth yw eu hanghenion.

(5) Yn y paragraff hwn, mae i "nodweddion gwarchodedig" yr ystyr a roddir i "protected characteristics" yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**7**).

(**7**) 2010 p. 15.

Plant sy'n derbyn gofal: yr ail flwyddyn flaenorol

2.—(1) Nifer y plant y gofalodd yr awdurdod lleol amdanynt, fel yr oedd ar 31 Mawrth yn yr ail flwyddyn flaenorol.

(2) Mewn perthynas â nifer y plant y cyfeirir ato yn is-baragraff (1), nifer y plant nad oedd yr awdurdod lleol wedi gallu gwneud trefniadau mewn cysylltiad â hwy o dan adran 81(2) o Ddeddf 2014.

(3) Mewn perthynas â nifer y plant y cyfeirir ato yn is-baragraff (2), nifer y plant a leolwyd—

(a) mewn gwasanaethau cartrefi plant;

(b) gyda rhieni maeth awdurdod lleol;

(c) mewn gwasanaethau llety diogel.

(4) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir o dan is-baragraff (3) hefyd gael ei chategoreiddio yn ôl math o ddarparwr.

Plant a leolwyd y tu allan i'r sir: yr ail flwyddyn flaenorol

3.—(1) Nifer y plant a leolwyd y tu allan i'r sir yn ystod yr ail flwyddyn flaenorol.

(2) Mewn perthynas â nifer y plant y cyfeirir ato yn is-baragraff (1), nifer y plant a leolwyd—

(a) mewn gwasanaethau cartrefi plant;

(b) gyda rhieni maeth awdurdod lleol;

(c) mewn gwasanaethau llety diogel.

(3) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir o dan is-baragraff (2) hefyd gael ei chategoreiddio yn ôl math o ddarparwr.

Plant a leolwyd y tu allan i'r wlad: yr ail flwyddyn flaenorol

4.—(1) Nifer y plant a leolwyd y tu allan i'r wlad yn ystod yr ail flwyddyn flaenorol.

(2) Mewn perthynas â nifer y plant y cyfeirir ato yn is-baragraff (1), nifer y plant a leolwyd—

(a) mewn gwasanaethau cartrefi plant;

(b) gyda rhieni maeth awdurdod lleol;

(c) mewn gwasanaethau llety diogel.

(3) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir o dan is-baragraff (2) hefyd gael ei chategoreiddio yn ôl math o ddarparwr.

Plant a leolwyd mewn gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru: yr ail flwyddyn flaenorol

5. Nifer y plant a leolwyd mewn gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru yn ystod yr ail flwyddyn flaenorol.

Plant sy'n ddarostyngedig i orchmynion amddifadu o ryddid: yr ail flwyddyn flaenorol

6. Nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol a oedd yn ddarostyngedig i orchmynion amddifadu o ryddid yn ystod yr ail flwyddyn flaenorol.

Plant sy'n derbyn gofal: 30 Medi yn y flwyddyn flaenorol berthnasol

7.—(1) Nifer y plant y gofalodd yr awdurdod lleol amdanynt, fel yr oedd ar 30 Medi yn y flwyddyn flaenorol berthnasol.

(2) Mewn perthynas â nifer y plant y cyfeirir ato yn is-baragraff (1), nifer y plant nad yw'r awdurdod lleol wedi gallu gwneud trefniadau mewn cysylltiad â hwy o dan adran 81(2) o Ddeddf 2014.

(3) Mewn perthynas â nifer y plant y cyfeirir ato yn is-baragraff (2), nifer y plant a leolwyd—

(a) mewn gwasanaethau cartrefi plant;

(b) gyda rhieni maeth awdurdod lleol;

(c) mewn gwasanaethau llety diogel.

(4) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir o dan is-baragraff (3) hefyd gael ei chategoreiddio yn ôl math o ddarparwr.

Plant a leolwyd y tu allan i'r sir: y flwyddyn flaenorol berthnasol hyd at 30 Medi

8.—(1) Nifer y plant a leolwyd y tu allan i'r sir yn ystod y flwyddyn flaenorol berthnasol hyd at, a chan gynnwys, 30 Medi.

(2) Mewn perthynas â nifer y plant y cyfeirir ato yn is-baragraff (1), nifer y plant a leolwyd—

(a) mewn gwasanaethau cartrefi plant;

(b) gyda rhieni maeth awdurdod lleol;

(c) mewn gwasanaethau llety diogel.

(3) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir o dan is-baragraff (2) hefyd gael ei chategoreiddio yn ôl math o ddarparwr.

Plant a leolwyd y tu allan i'r wlad: y flwyddyn flaenorol berthnasol hyd at 30 Medi

9.—(1) Nifer y plant a leolwyd y tu allan i'r wlad yn ystod y flwyddyn flaenorol berthnasol hyd at, a chan gynnwys, 30 Medi.

(2) Mewn perthynas â nifer y plant y cyfeirir ato yn is-baragraff (1), nifer y plant a leolwyd—

(a) mewn gwasanaethau cartrefi plant;

(b) gyda rhieni maeth awdurdod lleol;

(c) mewn gwasanaethau llety diogel.

(3) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir o dan is-baragraff (2) hefyd gael ei chategoreiddio yn ôl math o ddarparwr.

Plant a leolwyd mewn gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru: y flwyddyn flaenorol berthnasol hyd at 30 Medi

10. Nifer y plant a leolwyd mewn gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru yn ystod y flwyddyn flaenorol berthnasol hyd at, a chan gynnwys, 30 Medi.

Plant sy'n ddarostyngedig i orchmynion amddifadu o ryddid: y flwyddyn flaenorol berthnasol hyd at 30 Medi

11. Nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol a oedd yn ddarostyngedig i orchmynion amddifadu o ryddid yn ystod y flwyddyn flaenorol berthnasol hyd at, a chan gynnwys, 30 Medi.

Darpariaeth genedlaethol, ranbarthol, a lleol, fel yr oedd ar 30 Medi yn y flwyddyn flaenorol berthnasol

12.—(1) Crynodeb o'r ddarpariaeth genedlaethol, ranbarthol, a lleol, a ddarparwyd i'r awdurdod lleol, neu a oedd ar gael iddo, ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, fel yr oedd ar 30 Medi yn y flwyddyn flaenorol berthnasol.

(2) Rhaid i'r crynodeb a ddarperir o dan is-baragraff (1) gynnwys mathau o leoliad, sef—

(a) gwasanaethau cartrefi plant;

(b) rhieni maeth awdurdod lleol;

(c) gwasanaethau llety diogel.

(3) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir o dan is-baragraff (2) gael ei chategoreiddio yn ôl math o ddarparwr.

Plant sy'n derbyn gofal: 31 Mawrth yn y flwyddyn flaenorol berthnasol

13.—(1) Nifer y plant y mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y bydd yn gofalu amdanynt, fel yr oedd ar 31 Mawrth yn y flwyddyn flaenorol berthnasol.

(2) Mewn perthynas â nifer y plant y cyfeirir ato yn is-baragraff (1), nifer y plant y mae'r awdurdod lleol yn rhagweld na fydd wedi gallu gwneud trefniadau mewn cysylltiad â hwy o dan adran 81(2) o Ddeddf 2014.

(3) Mewn perthynas â nifer y plant y cyfeirir ato yn is-baragraff (2), nifer y plant a leolwyd—

(a) mewn gwasanaethau cartrefi plant;

(b) gyda rhieni maeth awdurdod lleol;

(c) mewn gwasanaethau llety diogel.

(4) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir o dan is-baragraff (3) hefyd gael ei chategoreiddio yn ôl math o ddarparwr.

Plant a leolwyd y tu allan i'r sir: rhagolwg ar gyfer y flwyddyn flaenorol berthnasol lawn

14.—(1) Nifer y plant y mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y bydd wedi eu lleoli y tu allan i'r sir yn ystod y flwyddyn flaenorol berthnasol lawn.

(2) Mewn perthynas â nifer y plant y cyfeirir ato yn is-baragraff (1), nifer y plant y mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y byddant wedi cael eu lleoli—

(a) mewn gwasanaethau cartrefi plant;

(b) gyda rhieni maeth awdurdod lleol;

(c) mewn gwasanaethau llety diogel.

(3) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir o dan is-baragraff (2) hefyd gael ei chategoreiddio yn ôl math o ddarparwr.

Plant a leolwyd y tu allan i'r wlad: rhagolwg ar gyfer y flwyddyn flaenorol berthnasol lawn

15.—(1) Nifer y plant y mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y bydd wedi eu lleoli y tu allan i'r wlad yn ystod y flwyddyn flaenorol berthnasol lawn.

(2) Mewn perthynas â nifer y plant y cyfeirir ato yn is-baragraff (1), nifer y plant y mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y byddant wedi cael eu lleoli—

(a) mewn gwasanaethau cartrefi plant;

(b) gyda rhieni maeth awdurdod lleol;

(c) mewn gwasanaethau llety diogel.

(3) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir o dan is-baragraff (2) hefyd gael ei chategoreiddio yn ôl math o ddarparwr.

Plant a leolwyd mewn gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru: rhagolwg ar gyfer y flwyddyn flaenorol berthnasol lawn

16. Nifer y plant y mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y byddant wedi cael eu lleoli mewn gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru yn ystod y flwyddyn flaenorol berthnasol lawn.

Plant sy'n ddarostyngedig i orchmynion amddifadu o ryddid: rhagolwg ar gyfer y flwyddyn flaenorol berthnasol lawn

17. Nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol y mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y byddant yn ddarostyngedig i orchmynion amddifadu o ryddid yn ystod y flwyddyn flaenorol berthnasol lawn.

Risgiau cyfredol i ddigonolrwydd

18.—(1) Crynodeb ysgrifenedig o'r risgiau cyfredol mwyaf arwyddocaol y mae'r awdurdod lleol yn eu hwynebu wrth ddiwallu anghenion llety plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn flaenorol berthnasol.

(2) Crynodeb ysgrifenedig o'r canlynol—

(a) y camau y mae'r awdurdod lleol yn eu cymryd i liniaru'r risgiau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1), a

(b) unrhyw ffactorau, unrhyw amgylchiadau, neu unrhyw weithredoedd gan bersonau eraill, a all effeithio ar lwyddiant y mesurau lliniaru hynny, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r farchnad ddarparwyr, â chydweithredu rhanbarthol neu â chyllid.

Cyfyngiadau data cyfredol

19. Crynodeb ysgrifenedig o unrhyw gyfyngiadau yn y data yn ymwneud â'r cynllun digonolrwydd blynyddol a ddelir gan yr awdurdod lleol, fel yr oedd ar 30 Medi yn y flwyddyn flaenorol berthnasol.

Strategaethau a chynlluniau cyfredol mewn perthynas â'r gweithlu

20. Crynodeb ysgrifenedig o strategaethau a chynlluniau cyfredol yr awdurdod lleol mewn perthynas â'r gweithlu, sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal, fel yr oedd ar 30 Medi yn y flwyddyn flaenorol berthnasol.

RHAN 2

Gwybodaeth yn ymwneud â blwyddyn y cynllun

Plant sy'n derbyn gofal: rhagolwg ar gyfer blwyddyn y cynllun

21.—(1) Nifer y plant sy'n derbyn gofal y mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y bydd yn gofalu amdanynt, fel y mae ar 31 Mawrth ym mlwyddyn y cynllun.

(2) Mewn perthynas â nifer y plant y cyfeirir ato yn is-baragraff (1), nifer y plant y mae'r awdurdod lleol yn rhagweld na fydd yn gallu gwneud trefniadau mewn cysylltiad â hwy o dan adran 81(2) o Ddeddf 2014.

(3) Mewn perthynas â nifer y plant y cyfeirir ato yn is-baragraff (2), nifer y plant y mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y byddant yn cael eu lleoli—

(a) mewn gwasanaethau cartrefi plant;

(b) gyda rhieni maeth awdurdod lleol;

(c) mewn gwasanaethau llety diogel.

(4) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir o dan is-baragraff (3) hefyd gael ei chategoreiddio yn ôl math o ddarparwr.

Plant a leolwyd y tu allan i'r sir: rhagolwg ar gyfer blwyddyn y cynllun

22.—(1) Nifer y plant y mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y bydd yn eu lleoli y tu allan i'r sir yn ystod blwyddyn y cynllun.

(2) Mewn perthynas â nifer y plant y cyfeirir ato yn is-baragraff (1), nifer y plant y mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y bydd yn eu lleoli—

(a) mewn gwasanaethau cartrefi plant;

(b) gyda rhieni maeth awdurdod lleol;

(c) mewn gwasanaethau llety diogel.

(3) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir o dan is-baragraff (2) hefyd gael ei chategoreiddio yn ôl math o ddarparwr.

Plant a leolwyd y tu allan i'r wlad: rhagolwg ar gyfer blwyddyn y cynllun

23.—(1) Nifer y plant y mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y bydd yn eu lleoli y tu allan i'r wlad yn ystod blwyddyn y cynllun.

(2) Mewn perthynas â nifer y plant y cyfeirir ato yn is-baragraff (1), nifer y plant y mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y bydd yn eu lleoli—

(a) mewn gwasanaethau cartrefi plant;

(b) gyda rhieni maeth awdurdod lleol;

(c) mewn gwasanaethau llety diogel.

(3) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir o dan is-baragraff (2) hefyd gael ei chategoreiddio yn ôl math o ddarparwr.

Plant a leolwyd mewn gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru: rhagolwg ar gyfer blwyddyn y cynllun

24. Nifer y plant y mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y byddant yn cael eu lleoli mewn gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru yn ystod blwyddyn y cynllun.

Plant sy'n ddarostyngedig i orchmynion amddifadu o ryddid: rhagolwg ar gyfer blwyddyn y cynllun

25. Nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol y mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y byddant yn ddarostyngedig i orchmynion amddifadu o ryddid yn ystod blwyddyn y cynllun.

Cyfyngiadau data rhagamcanol a chamau i wella ansawdd data

26. Crynodebau ysgrifenedig o'r canlynol—

(a) cyfyngiadau data rhagamcanol sy'n ymwneud â blwyddyn y cynllun, a

(b) y camau y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd i wella ansawdd data yn ystod blwyddyn y cynllun.

Sefyllfa'r gweithlu o ran capasiti, gallu, recriwtio a chadw

27.—(1) Crynodeb ysgrifenedig o sefyllfa gweithlu'r awdurdod lleol o ran capasiti, gallu, recriwtio a chadw mewn gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

(2) Rhaid i'r crynodeb ysgrifenedig sy'n ofynnol gan is-baragraff (1) gynnwys—

(a) y meysydd y mae'r awdurdod lleol yn wynebu'r perygl mwyaf, yn ystod blwyddyn y cynllun, o beidio â chael gweithlu ynddynt sy'n ddigonol i ateb y galw mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal, gan roi sylw i'r canlynol—

(i) nifer y staff sydd ar gael,

(ii) sgiliau a galluoedd y staff hynny, gan gynnwys argaeledd staff ar gyfer rolau Cymraeg a rolau arbenigol, a

(iii) gallu'r awdurdod lleol i recriwtio a chadw staff;

(b) yr hyn sy'n achosi'r risgiau y cyfeirir atynt ym mharagraff (a).

(c) cynlluniau'r awdurdod lleol ar gyfer mynd i'r afael â'r risgiau hynny a'r hyn sy'n eu hachosi;

(d) y camau y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd i gefnogi datblygiad gweithlu cynaliadwy, a chadw'r gweithlu hwnnw, gan gynnwys drwy hyfforddiant, datblygiad proffesiynol, trefniadau datblygu gyrfaol a phartneriaethau â darparwyr addysg neu hyfforddiant;

(e) faint mae'r awdurdod lleol yn amcangyfrif y bydd yn dibynnu ar staff asiantaeth wrth gynllunio a darparu gofal cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn ystod blwyddyn y cynllun;

(f) y rhesymau dros unrhyw lefel o ddibyniaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (e).

Risgiau a lliniaru: rhagolwg ar gyfer blwyddyn y cynllun

28.—(1) Crynodeb ysgrifenedig o'r risgiau mwyaf arwyddocaol a ragwelir i ddigonolrwydd wrth ddiwallu anghenion llety plant sy'n derbyn gofal yn ystod blwyddyn y cynllun.

(2) Crynodeb ysgrifenedig o'r canlynol—

(a) y camau y mae'r awdurdod lleol yn eu cymryd i liniaru'r risgiau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1), a

(b) unrhyw ffactorau, unrhyw amgylchiadau, neu unrhyw weithredoedd gan bersonau eraill, a all effeithio ar lwyddiant y mesurau lliniaru hynny, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r farchnad ddarparwyr, â chydweithredu rhanbarthol neu â chyllid.

RHAN 3

Gwybodaeth gyffredinol

Cysoni â strategaethau a chynlluniau eraill

29. Crynodeb ysgrifenedig o sut y mae'r cynllun digonolrwydd blynyddol yn cyd-fynd â strategaethau a chynlluniau perthnasol eraill.

30. Esboniad o sut y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu cyflawni ei ddyletswydd o dan adran 75(1) o Ddeddf 2014.

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 116

SOCIAL CARE, WALES

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

The Local Authorities (Annual Sufficiency Plans) (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations are made under sections 75A(2)(a) and (3)(f), and 196(2) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 ("the 2014 Act"). They prescribe the form of, and information to be included in, annual sufficiency plans that local authorities in Wales are required to prepare and publish under section 75A of the 2014 Act.

The purpose of annual sufficiency plans is to strengthen strategic planning and transparency in relation to local authorities' duties under section 75(1) of the 2014 Act. Those duties require local authorities to secure, so far as reasonably practicable, sufficient accommodation provided by local authorities or registered providers that meet the requirements of section 6A(1) of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016, within or near to their areas, to meet the needs of looked after children.

Regulation 3 provides that annual sufficiency plans must be prepared using a template specified and published by the Welsh Ministers.

